



Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu

Croeso i'r tudalennau hyn a fydd yn eich arwain drwy'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu. Mae'r safonau'n rhan o ystod o safonau ar gyfer athrawon, arweinwyr a'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu. Fe'u cynlluniwyd i'ch cefnogi i fod y gorau y gallwch ac maent yn adlewyrchu arferion sy'n gyson â gwireddu'r cwricwlwm newydd.

O 1 Medi 2019 ymlaen bydd y safonau ar gael i'w defnyddio gan bob cynorthwydd addysgu a phob cynorthwydd addysgu lefel uwch (CALU) er mwyn myfyrio ar eu harferion a nodi dysgu proffesiynol.

Cynnwys

Gwneud y defnydd gorau o'r PDF rhyngweithiol hwn

Bydd angen i chi gael llygoden neu bwyntydd i glicio ar nodweddion sy'n eich galluogi i ddewis sut i lywio drwy'r tudalennau.

Bwriedir i'r adran safonau fod yn rhyngweithiol – cliciwch ar deitlau a symbolau yn y prif dudalennau i bori drwy'r safonau yn eich ffordd eich hun.

Bydd clicio ar bob un o'r pum safon yn mynd â chi at ddadansoddiad o elfennau o fewn pob safon.

Bydd clicio ar benawdau'r elfen yn mynd â chi at y disgrifyddion ar gyfer yr elfen honno.

Mae tudalennau â **thab melyn** yn ymwneud â'r disgrifyddion cynorthwyo addysgu.

Bydd clicio ar eiconau ar gornel dde gwaelod y tudalennau'n gadael i chi ddychwelyd at dudalennau cynharach, neu lywio rhwng pob un o'r pum safon.

Ceir eicon ar dudalennau'r disgrifyddion a fydd yn mynd â chi'n ôl at y dadansoddiad o elfennau'r safon honno, a bydd yno ddolenni i'ch galluogi i symud i'r dudalen 'Pum safon proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu'.

Bydd yr eicon hafan yn mynd â chi'n ôl i'r dudalen cynnwys.

Model newydd ar gyfer safonau proffesiynol

Wedi cyd-weithio â chynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU), athrawon ac arweinwyr ledled Cymru, mae gennym bum safon ar gyfer cynorthwyo addysgu ar gyfer cynorthwywyr addysgu a CALU, gyda set o werthoedd ac ymagweddau cyffredin a ddylai ysgogi pawb sy'n gweithio gyda dysgwyr. Mae'r safonau'n canolbwyntio ar elfennau hanfodol cynorthwyo addysgu – addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesi a dysgu proffesiynol. Bydd y rhain yn sylfaen i ddatblygiad y rhan allweddol honno o'r gweithlu ysgolion sy'n cynorthwyo addysgu, gan gyfrannu at drawsnewid ein system addysg yng Nghymru. Datblygwyd y safonau newydd gyda'r proffesiwn, ar gyfer y proffesiwn, ac i fod yn berthnasol i waith dyddiol y rhai hynny sy'n cynorthwyo addysgu.

Rhennir pob safon yn elfennau â disgrifyddion sy'n dangos enghreifftiau o sut y gall y safonau fod yn berthnasol i'w gwaith, gan ddibynnu ar ble maen nhw o ran eu rôl a'u gyrfa.

Mae'r **is ddisgrifyddion** yn dangos enghreifftiau o arferion effeithiol.

Mae'r **uwch ddisgrifyddion** yn dangos enghreifftiau o arferion effeithiol iawn a pharhaus.

Dylai cynorthwydd addysgu sy'n ceisio statws CALU fod yn arddangos arfer effeithiol iawn a pharhaus yn y disgrifyddion perthnasol cyn ymgymryd â chynllun CALU ac os yn llwyddiannus, derbyn statws CALU.

Pwy fydd yn eu defnyddio a phryd?

Mae'r set hon o safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu ar gael i'w chyflwyno o fis Medi 2019.

O dan bob un o'r pum safon mae nifer o elfennau a ategir gan amrywiaeth o ddisgrifyddion. Mae'r rhain yno i ymarferwyr eu harchwilio mewn ffordd ddatblygiadol – nid fel rhestr wirio – drwy ddangos sut mae arfer effeithiol iawn a pharhaus yn edrych.

Bydd y rhai hynny sy'n cynorthwyo addysgu yn gallu defnyddio Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i adlewyrchu ar eu profiadau proffesiynol a'u mapio i'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu.

Gallwch ddechrau archwilio'r safonau proffesiynol ar y dudalen nesaf.

Gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin

Ysgogi pawb sy'n gweithio gyda dysgwyr i arddangos safonau proffesiynol uchel yn eu hymarfer.



Gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin

Mae gan y cynorthwydd addysgu hawl broffesiynol i fod yn rhan o ysgol sy'n ystyried ei hun fel sefydliad sy'n dysgu. Mae gan y cynorthwydd addysgu ymreolaeth i fod yn rhan weithredol o broffesiwn lleol, cenedlaethol a byd-eang ac mae ganddo'r hawl i annog a chefnogi gwelliant i'r ysgol er budd y dysgwyr.

Mae'r cynorthwydd addysgu yn pwysleisio pwysigrwydd canolog hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru yn gyson. Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i feithrin sgiliau ar draws pob maes dysgu a chymerir pob cyfle i ehangu sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

Iaith a diwylliant Cymru

Hawl broffesiynol

Hawliau dysgwyr

Gwerthoedd ac ymagweddau

Bydd anghenion a hawliau dysgwyr yn ganolog ac yn cael blaenoriaeth yn null y cynorthwydd addysgu o wneud ei swydd. Mae'r cynorthwydd addysgu yn arddangos disgwyliadau uchel ac ymrwymiad i gyflawniad pob dysgwr.

Mae'r cynorthwydd addysgu wedi ymrwymo i ddysgwyr ym mhob man ac mae'n rhan ddylanwadol o ddatblygu diwylliant addysg cydlynol yng Nghymru.

Rôl yn y system


Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol

Mae'r cynorthwydd addysgu yn pwysleisio pwysigrwydd canolog llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn gyson. Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i feithrin sgiliau ar draws pob maes dysgu, a chymerir pob cyfle i ehangu sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.


Mae'r cynorthwydd addysgu yn ddysgwr proffesiynol ac mae'n ymrwymo i ymgysylltu'n barhaus â datblygu, cydweithio ac arloesi gydol gyrfa.

Dysgwyr proffesiynol

Y pum safon proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu



Y pum safon proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu




...dysgu ac
addysgu sy'n
hollbwysig


Y pum safon proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu



...galluogi addysgu
i ledaenu




Y pum safon proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu



... cymryd addysgeg
yn ddyfnach




Y pum safon proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu



...symud addysgeg
ymlaen


Y pum safon proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu



...helpu addysgeg
i dyfu

Y pum safon proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu

Gweithio fel un...
i sicrhau addysgeg effeithiol
gyda gwerthoedd ac
ymagweddau cyffredin.



Y pum safon proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu

Addysgeg...dysgu ac addysgu sy'n hollbwysig

Mae'r cymorth ar gyfer yr athro neu ar gyfer dysgwyr yn canolbwyntio ar ddeilliannau dysgu ac ar les. Mae'r cynorthwydd addysgu yn rhan annatod o'r tîm sy'n cynnig cyfleoedd dysgu ac mae'n gosod esiamp. Mae'r dylanwad ar ddysgwyr eu hunain yn gadarnhaol, gan ddatblygu eu hymagwedd tuag at ddysgu a gwella'u gallu i fanteisio ar gyfleoedd dysgu fel sy'n briodol.

Yn ogystal, mae'r CALU yn rhoi arweinyddiaeth ar gyfer dysgwyr a chynorthwywyr addysgu eraill ac yn cynllunio, yn cyflawni ac yn asesu'n effeithiol.

Cydweithredu...galluogi addysgeg i ledaenu

Mae'r cynorthwydd addysgu yn gweithio gyda chydweithwyr ar bob lefel i gyflawni amcanion yr ysgol. Mabwysiedir safbwynt o ddisgwyliad, sy'n cynnwys gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr o ysgolion eraill a chyda theuluoedd neu bartneriaid eraill sydd ynghlwm â dysgu.

Yn ogystal, mae'r CALU yn cynllunio ac yn llywio cydweithredu effeithiol.

Arweinyddiaeth...helpu addysgeg i dyfu

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cymryd cyfrifoldeb am eu rôl o gefnogi atebolrwydd athrawon a chynnydd dysgwyr penodol. Mae'n mynd ati'n gyson i gefnogi'r gwaith o arwain timau neu'r ysgol drwy gyfrannu'n llawn er mwyn ceisio sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr.

Yn ogystal, mae'r CALU yn gyson yn arwain cydweithwyr o ran darparu cymorth i athrawon a dysgwyr. Drwy gefnogi datblygiad cynorthwywyr addysgu, maent yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr.

Arloesi...symud addysgeg ymlaen

Mae'r cynorthwydd addysgu yn ystyried syniadau a thechnegau newydd ac yn cyfrannu at ymdrech yr ysgol i roi dulliau newydd o ddysgu ac addysgu ar waith.

Mae'r CALU yn ceisio syniadau a thechnegau newydd ac yn rhoi momentwm i ymdrechion yr ysgol i weithredu ymagweddau newydd tuag at ddysgu ac addysgu.

Dysgu proffesiynol...cymryd addysgeg yn ddyfnach

Mae'r cynorthwydd addysgu yn ymdrechu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd sydd o fudd i'r dysgwyr drwy fod yn weithgar yn yr ysgol fel cymuned sy'n dysgu. Mae'n mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu sy'n cefnogi anghenion yr ysgol neu ddysgwyr penodol.

Yn ogystal, mae'r CALU wedi caffael sgiliau llythrennedd a rhifedd, oll ar Lefel 2 o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Hefyd, maent wedi cwblhau'n llwyddiannus y dysgu proffesiynol sydd ei angen i fod yn ddeiliad statws CALU.




Disgrifyddion ar gyfer cynorthwyo addysgu

Disgwyliadau ar gyfer cynorthwyo addysgu

CYNORTHWYO
ADDYSGU


Arfer effeithiol



Disgwyliadau ar gyfer cynorthwyo addysgu

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Cliciwch ar segment
i archwilio'r safonau
ar gyfer cynorthwyo
addysgu.



Addysgeg


CYNORTHWYO
ADDYSGU

Y safon

Mae'r cymorth ar gyfer yr athro neu ar gyfer dysgwyr yn canolbwyntio ar ddeilliannau dysgu ac ar les. Mae'r cynorthwydd addysgu yn rhan annatod o'r tîm sy'n cynnig cyfleoedd dysgu ac mae'n gosod esiampl. Mae'r dylanwad ar ddysgwyr eu hunain yn gadarnhaol, gan ddatblygu eu hymagwedd tuag at ddysgu a gwella'u gallu i fanteisio ar gyfleoedd dysgu fel sy'n briodol.

Yn ogystal, mae'r CALU yn rhoi arweinyddiaeth ar gyfer dysgwyr a chynorthwywyr addysgu eraill ac yn cynllunio, yn cyflawni ac yn asesu'n effeithiol.

**Dadbacio
addysgeg...
cydweddu â
'Dyfodol
Llwyddiannus'**




Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Mireinio addysgu...cynorthwyo effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd

Cliciwch ar benawdau'r elfennau
i ddarllen y disgrifyddion.



Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Mireinio addysgu...cynorthwyo effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd

Rheoli'r amgylchedd dysgu

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn gyfrifol am gynnal agweddau ar yr amgylchedd dysgu i safon uchel ac am wella agweddau lle bo angen.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cefnogi'r athro i wneud yr amgylchedd dysgu yn effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddeinamig o ran sut y caiff ei drefnu ac o ran hyrwyddo dysgu yn unol â gweledigaeth yr ysgol.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Mireinio addysgu...cynorthwyo effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd

Helpu gydag asesu

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Cynnal sgysiau hir a manwl gyda grwpiau penodol o ddysgwyr er mwyn i'r athro allu asesu cynnydd.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwyydd addysgu yn arsylwi ar gryfderau neu anawsterau dysgwyr ac yn tynnu sylw'r athro atynt.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Mireinio addysgu...cynorthwyo effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd

Helpu i ddarparu'r adnoddau priodol

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae adnoddau gwahaniaethol wedi'u trefnu yn ôl anghenion gwahanol ddysgwyr.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r adnoddau'n drefnus ac yn cael eu diweddarau i gefnogi dysgu.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Mireinio addysgu...cynorthwyo effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd

Cynnwys teuluoedd yn y broses ddysgu

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn helpu i feithrin perthynas gadarnhaol gynhyrchiol gyda theuluoedd, gyda'i gilydd ac yn unigol, gan alluogi iddynt ddeall a chefnogi dysgu.

Disgrifydd arfer effeithiol:


Mae'r cynorthwydd addysgu yn cefnogi dysgu drwy helpu i feithrin cysylltiad effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Hyrwyddo dysgu...hwyluso effaith

Cliciwch ar benawdau'r elfennau
i ddarllen y disgrifyddion.



Addysgeg

Hyrwyddo dysgu...hwyluso effaith

Pedwar diben i ddysgwyr

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae syniadau ac awgrymiadau ar gyfer estyn datblygiad y pedwar diben yn arwain at wella'r effaith a geir ar ansawdd yr addysgu a deilliannau dysgu.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn manteisio ar bob cyfle i gefnogi datblygu'r pedwar diben yn nysg pob dysgwr.

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Hyrwyddo dysgu...hwyluso effaith

Cyd-destunau bywyd go iawn

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn meddwl ar ei draed er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gysylltu dysgu cysyniadau, sgiliau a gwybodaeth â'r gymuned leol a'r byd ehangach.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cynnig awgrymiadau i athrawon ar gyfer gwneud cysylltiadau rhwng dysgu â'r byd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, o'r gymuned leol i'r byd ehangach.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Hyrwyddo dysgu...hwyluso effaith

Cysylltu pynciau a themâu

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn helpu addysgu sy'n cysylltu pynciau â'i gilydd drwy themâu trawsgwricwlaidd.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn helpu i sicrhau yr eir i afael â'r hyn sy'n greiddiol i ddisgyblaethau pynciau wrth gefnogi addysgu pwnc.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Hyrwyddo dysgu...hwyluso effaith

Helpu dysgwyr i wneud cynnydd

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol ar gyfer dysgu, ac yn sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd ar draws y pedwar diben drwy ymyriadau ffurfiol a greddfol.

Disgrifydd arfer effeithiol:


Mae'r cynorthwydd addysgu yn cefnogi ymdrechion yr athro i sicrhau bod y dysgu a gynllunir yn effeithiol a bod cynnydd o ran pob agwedd ar ddysgu.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Dylanwadu ar ddysgwyr...helpu i ddatblygu agwedd gadarnhaol

Cliciwch ar benawdau'r elfennau
i ddarllen y disgrifyddion.



Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Dylanwadu ar ddysgwyr...helpu i ddatblygu agwedd gadarnhaol

Arsylwi ar ddysgwyr

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn gallu arsylwi ar grwpiau penodol o ddysgwyr i nodi pa mor heriol yw'r gwaith a beth sy'n ddisgwyliedig er mwyn helpu'r athro i dargedu dysgu yn fwy effeithiol.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn gallu cefnogi addysgu drwy wneud sylwadau pendant am y ffordd y mae dysgwyr yn mynd i'r afael â thasgau a beth sy'n helpu neu'n llesteirio eu dysgu.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Dylanwadu ar ddysgwyr...helpu i ddatblygu agwedd gadarnhaol

Gwranddo ar ddysgwyr

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cynnal sgysiau manwl, strwythuredig am ddysgu ac yn cynnig awgrymiadau yn seiliedig ar wybodaeth i helpu athrawon i gynllunio'r camau nesaf.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Cynorthwyo addysgu drwy weithio'n uniongyrchol gyda grwpiau penodol o ddysgwyr er mwyn deall llwyddiannau, anawsterau a chyflawniadau.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Dylanwadu ar ddysgwyr...helpu i ddatblygu agwedd gadarnhaol

Dysgwyr yn arwain dysgu

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn gallu cynnal sgysiau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn i'r dysgwyr weld bod eu hawgrymiadau'n rhai dilys a bod eu syniadau yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gynhyrchiol.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Wrth gynllunio ac yn ddigymell, mae'r cynorthwydd addysgu yn gallu cynnwys awgrymiadau gan ddysgwyr er mwyn annog perchnogaeth o'u dysgu.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Dylanwadu ar ddysgwyr...helpu i ddatblygu agwedd gadarnhaol

Helpu'r dysgwyr i wneud ymdrech

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn manteisio ar gyfleoedd i fyfyrion gyda'r dysgwyr a rhoi sylw i'w hymdrech barhaus mewn agweddau ar ddysgu, ac annog hynny.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mynd ati i wynebu pob dydd a phob gweithgaredd mewn ffordd gadarnhaol i osod esiampl o ran agwedd at ddysgu a dangos ymdrech, gwydnwch a chreadigrwydd.

Addysgeg

CYNORTHWYO
ADDYSGU

Dylanwadu ar ddysgwyr...helpu i ddatblygu agwedd gadarnhaol

Deilliannau dysgu a lles

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r bwriadau dysgu sydd wedi'u cynllunio yn eglur i'r tîm addysgu cyfan ac mae'r cynorthwydd addysgu yn cefnogi'r athro wrth ymroi i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer pob dysgwr.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Dangos brwdfrydedd am y broses ddysgu yn gyson a pharhaus, a'i ennyn yn eraill.


Cydweithredu

Y safon

Mae'r cynorthwydd addysgu yn gweithio gyda chydweithwyr ar bob lefel i gyflawni amcanion yr ysgol. Mabwysiedir safbwynt o ddisgwyliad, sy'n cynnwys gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr o ysgolion eraill a chyda theuluoedd neu bartneriaid eraill sydd ynghlwm â dysgu.

Yn ogystal, mae'r CALU yn cynllunio ac yn llywio cydweithredu effeithiol.

Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.



Ceisio cyngor a chymorth

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Cynnal trafodaethau strwythuredig yn rheolaidd gan gyfathrebu'n agored ac onest fel rhan o'r tîm addysgu er lles y dysgwyr.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cymryd rhan mewn sggyrsiau am effeithiolrwydd ac yn manteisio ar gyngor priodol.

Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn rhan annatod o'r tîm addysgu ac yn cyfrannu'n sylwgar at y gwaith cynllunio a gwerthuso.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Cynorthwyo addysgu yn arwain at gynnig awgrymiadau i gefnogi dull yr athro o fyfyrffio ar ei arferion.

Cefnogi a datblygu eraill

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae cyfraniadau ffurfiol ac anffurfiol yn helpu i fireinio strategaethau a dulliau gweithredu er lles pob dysgwr.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cefnogi cydweithwyr i rannu eu harbenigedd.

Dysgu proffesiynol


CYNORTHWYO
ADDYSGU

Y safon

Mae'r cynorthwydd addysgu yn ymdrechu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd sydd o fudd i'r dysgwyr drwy fod yn weithgar yn yr ysgol fel cymuned sy'n dysgu. Mae'n mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu sy'n cefnogi anghenion yr ysgol neu ddysgwyr penodol.

Yn ogystal, mae'r CALU wedi caffael sgiliau llythrennedd a rhifedd, oll ar Lefel 2 o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Hefyd, maent wedi cwblhau'n llwyddiannus y dysgu proffesiynol sydd ei angen i fod yn ddeiliad statws CALU.

Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.



Darllen ac ystyried casgliadau ymchwil

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cymryd cyfrifoldeb am ehangu ei ddealltwriaeth o arferion drwy ystyried llenyddiaeth a gwaith ymchwil.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn darllen llenyddiaeth briodol am ddysgu, yn ei hystyried ac yn gweithredu ar sail hynny.

Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn datblygu ei ddealltwriaeth a'i arferion drwy ddysgu strwythuredig gyda chydweithwyr o ysgolion eraill.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn manteisio ar gyfleoedd i fynd ar gyrsiau a rhannu'r profiad a'r wybodaeth a geir ohonynt gyda chydweithwyr eraill yn yr ysgol.

Y Gymraeg a diwylliant Cymru

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cymryd camau i wella ei allu o ran y Gymraeg, ac yn annog brwdfrydedd ymysg dysgwyr.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cymryd camau i gynyddu ei sgiliau ei hun drwy'r Gymraeg ac yn gwneud ymdrech i ddangos i ddysgwyr mor gyffrous yw dysgu'r Gymraeg a deall diwylliant a hanes Cymru.

Arloesi


CYNORTHWYO
ADDYSGU

Y safon

Mae'r cynorthwydd addysgu yn ystyried syniadau a thechnegau newydd ac yn cyfrannu at ymdrech yr ysgol i roi dulliau newydd o ddysgu ac addysgu ar waith.

Mae'r CALU yn ceisio syniadau a thechnegau newydd ac yn rhoi momentwm i ymdrechion yr ysgol i weithredu ymagweddau newydd tuag at ddysgu ac addysgu.

Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.



Datblygu arbenigedd y tîm

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn rhannu ei arbenigedd ac yn cynnig cymorth i gydweithwyr sy'n rhoi cynnig ar rywbeth newydd fel rhan o'u technegau addysgu.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn agored i ystyried a rhoi cynnig ar ddulliau newydd yn ei waith ei hun.

Gwerthuso effaith newidiadau i addysgeg

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cefnogi dulliau newydd o ran addysgeg, ac yn cynorthwyo â'r broses o ddeall gwelliant mewn dysgu.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o gofnodi, adrodd a myfyrio ar newidiadau i arferion.

Arweinyddiaeth


CYNORTHWYO
ADDYSGU

Y safon

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cymryd cyfrifoldeb am ei rôl o gefnogi atebolrwydd athrawon a chynnydd dysgwyr penodol. Mae'n mynd ati'n gyson i gefnogi'r gwaith o arwain timau neu'r ysgol drwy gyfrannu'n llawn er mwyn ceisio sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr.

Yn ogystal, mae'r CALU yn gyson yn arwain cydweithwyr o ran darparu cymorth i athrawon a dysgwyr. Drwy gefnogi datblygiad cynorthwywyr addysgu, maent yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr.

Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.



Cymryd cyfrifoldeb personol

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn datblygu ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i sgiliau er mwyn dod yn fwy hyfedr.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn derbyn cyfrifoldeb am y rôl ac yn dangos ymrwymiad i ddysgwyr drwy drefniadaeth a rheolaeth broffesiynol.

Arfer cyfrifoldeb corfforaethol

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cefnogi cydweithwyr i ddeall polisiau swyddogol a glynu atynt.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cydymffurfio â'r polisiau y cytunir arnynt ac yn ceisio cyngor pan fo angen.

Arwain cydweithwyr, prosiectau a rhaglenni

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn arwain gyda chynorthwywyr eraill ar brosiectau penodol ac ystyrir ei fod yn dylanwadu'n gadarnhaol ar lwyddiant y dysgu.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn arwain elfennau o brosiectau a rhaglenni i ddatblygu dysgu mewn amrywiaeth o agweddau ar fywyd yn yr ysgol.

Arwain digwyddiadau sy'n gysylltiedig â dysgu

Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn trefnu digwyddiadau i hyrwyddo'r ysgol ac i estyn y dysgu i'r gymuned ehangach.

Disgrifydd arfer effeithiol:

Mae'r cynorthwydd addysgu yn cefnogi digwyddiadau i hyrwyddo a datblygu dysgu yn yr ysgol.



ISBN Digidol 978 1 83876 514 9
Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu
© Hawlfraint y Goron 2019
WG38330
